

---

 STATUTORY INSTRUMENTS
 

---

**1986 No. 1079 (L. 6)**

**MAGISTRATES' COURTS**

**PROCEDURE**

**The Magistrates' Courts (Welsh Forms) Rules 1986**

<i>Made</i> - - - - -	25th June 1986
<i>Laid before Parliament</i>	10th July 1986
<i>Coming into Operation</i>	1st August 1986

The Lord Chancellor, in exercise of the power conferred on him by section 144 of the Magistrates' Courts Act 1980(a), as extended by section 145 of that Act and section 2 of the Welsh Language Act 1967(b), after consultation with the Rule Committee appointed under the said section 144, hereby makes the following Rules:—

1. These Rules may be cited as the Magistrates' Courts (Welsh Forms) Rules 1986 and shall come into operation on 1st August 1986.

2. In these Rules—

- (a) "English form" means any form prescribed in the Magistrates' Courts (Forms) Rules 1981(c) corresponding to a Welsh form; and
- (b) "Welsh form" means any form contained in Schedule 1 to these Rules.

3. Subject to the provisions of these Rules, Welsh forms or forms to the like effect may be used, with such variations as the circumstances may require, in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales.

4. Both a Welsh form and an English form may be included in the same document.

5.— (1) When only a Welsh form, specified in Part I of Schedule 1 to these Rules, or only the corresponding English form, is used in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales, there shall be added the words in Welsh and English contained in Schedule 2 to these Rules; and the clerk of the

---

(a) 1980 c.43.

(b) 1967 c.66.

(c) S.I. 1981/553, amended by S.I. 1982/246, 1983/524, 1984/1542.

magistrates' court or other person responsible for the service of the form shall, if any person upon whom the form is served so requests, provide him with the corresponding English or Welsh form.

(2) In this Rule any reference to serving a document shall include the sending, giving or other delivery of it.

6. In the case of a discrepancy between an English and Welsh text the English text shall prevail.

7. The Magistrates' Courts (Welsh Forms) Rules 1969(a) and the Magistrates' Courts (Welsh Forms) (Amendment) Rules 1970(b) are hereby revoked.

*Hailsham of St. Marylebone, C.*

Dated 25th June 1986.

---

(a) S.I. 1969/258.  
(b) S.I. 1970/230.

## SCHEDULE 1

## Rule 2

## INDEX TO WELSH FORMS

## PART I

## FORMS REQUIRING THE ENDORSEMENT IN SCHEDULE 2 TO THE RULES

Number of Form  
in Magistrates'  
Courts (Forms)  
Rules 1981

2. Summons.
3. Summons to accused to attend adjourned hearing.
13. Statement of witness.
14. Notice to defendant: proof by written statement.
22. Witness order.
23. Notice to witness that a witness order is to be treated as a conditional order.
24. Notice of provisions of section 11 of the Criminal Justice Act 1967.
27. Notice to defendant: plea of guilty in absence.
28. Statement of facts.
29. Notice of intention to cite previous convictions.
30. Notice of intention to cite previous convictions for offences involving obligatory or discretionary disqualification from driving.
37. Order of dismissal of information.
46. Notice of fine.
53. Summons to fine defaulter.
61. Notice of transfer of fine order.
62. Notice of fine supervision order.
64. Probation order.
65. Order for conditional discharge.
66. Summons to probationer on application to amend probation order.
67. Order amending probation order.
68. Order discharging probation order.
69. Order substituting conditional discharge for probation.
71. Summons for breach of requirements of probation order.
78. Summons on commission of further offence during probation period or period of conditional discharge.
85. Summons on commission of further offence during operational period of suspended sentence.
- 90D. Summons on conviction of further offence committed during whole period of a partly suspended sentence.
92. Community service order.
97. Notice of order to give information of date of birth and sex.
99. Summons on complaint.
100. Order of dismissal of complaint.
101. Order on complaint.
102. Summons to rate defaulter.
105. Summons to defendant: civil debt.
106. Order: civil debt.
108. Judgment summons.
112. Summons to vary etc. order for periodical payments.
113. Order varying etc. order for periodical payments.
116. Summons to vary sureties.
122. Notice of recognizance to principal and sureties (civil cases).
123. Notice of recognizance to sureties (criminal cases).
125. Notice of recognizance to witness and sureties.
131. Notice of enlargement of recognizance (civil cases).
132. Notice of enlargement of sureties recognizance (criminal cases).
133. Notice of forfeiture of recognizance.

136. Summons to witness.
149. Record of decision to grant unconditional bail (criminal cases).
150. Record of decision to grant conditional bail (criminal cases).
151. Record of decision to withhold bail (criminal cases).
152. Record of decision to vary conditions of bail or impose conditions on bail granted unconditionally (criminal cases).
153. Record of decision to appoint a different time or place for a person granted bail to surrender to custody (criminal cases).

## PART II

## FORMS NOT REQUIRING THE ENDORSEMENT IN SCHEDULE 2 TO THE RULES

Number of Form  
in Magistrates'  
Courts (Forms)  
Rules 1981

4. Warrant of arrest in first instance.
11. Order for taking finger-prints and palm-prints of accused person.
12. Warrant of arrest on failure to surrender to bail.
15. Warrant of arrest issued before return date of summons.
19. Order committing corporation for trial.
31. Warrant of arrest on failure to appear in answer to summons or at adjourned trial before evidence has been received.
32. Warrant of arrest on failure to appear after evidence has been received where the accused is at large otherwise than on bail.
33. Warrant of arrest on remand after conviction.
35. Hospital order.
- 35A. Order for remand to a hospital for report on the mental condition of the accused.
- 35B. Order for further remand to a hospital for report on the mental condition of the accused.
- 35C. Interim hospital order.
- 35D. Continuation of an interim hospital order.
36. Guardianship order.
38. Conviction.
48. Distress warrant.
54. Warrant for arrest of fine defaulter.
57. Warrant for detention in police cells.
58. Warrant for detention in police station.
59. Transfer of fine order.
72. Warrant of arrest for breach of requirement of probation order.
75. Order on failure to comply with requirement of probation order.
79. Warrant of arrest on commission of further offence during probation period or period of conditional discharge.
81. Order in respect of original offence on commission of further offence during probation period.
86. Warrant of arrest on conviction of further offence committed during operational period of suspended sentence.
89. Order that suspended sentence shall take effect.
- 90E. Warrant of arrest on conviction of further offence committed during whole period of a partly suspended sentence.
- 90H. Order restoring the part of a partly suspended sentence held in suspense.
- 95B. Community Service: warrant of arrest of offender required to appear before sentencing court.
103. Warrant for arrest of rate defaulter.
109. Distress warrant: civil debt.
115. Order of recognizance to keep the peace.
117. Order varying order for sureties.



- 118. Recognizance (civil cases).
- 119. Recognizance of surety (criminal cases).
- 120. Recognizance: Bail: Appeal to Crown Court.
- 121. Recognizances to prosecute an appeal before the High Court on case stated and for bail pending the appeal.
- 124. Recognizance of witness and surety.
- 134. Distress warrant: forfeited recognizance.
- 137. Warrant for arrest of witness on failure to appear to summons.
- 138. Warrant for arrest of witness in first instance.
- 156. Warrant to enter and search premises.
- 157. Warrant of further detention.

## PART I

*Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules*

## FFURFLEN 2

*Gwŷs (M.C. Act 1980, s.1; M.C. Rules 1981, r. 98)*Llys Ynadon ..... (*Cod*)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

o:

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar  
 am m. gerbron Llys yr Ynadon  
 i ateb i'r [hysbysiaeth ganlynol]  
 [hysbysiaeth y rhoir ei manylion yn yr  
 Atodlen isod]

[Trosedd honedig: ]

Erlynydd:

Cyfeiriad:

[Dyddiad yr hysbysiaeth: ]

Ynad Heddwch  
 [Clerc yr Ynadon]

## ATODLEN

Dyddiad yr hysbysiaeth	Trosedd honedig (manylion a statud)
------------------------	--

## FFURFLEN 3

*Gwŷs i'r cyhuddedig fynychu gwrandawriad a ohiriwyd (M.C. Act 1980, s.26(1); M.C. Rules 1981, r. 98)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

o:

Cyflwynwyd gwŷs i chi ar gyfer ei gwrandawriad ..... (dyddiad) ..... gan y llys uchod. Y mae'r llys wedi penderfynu heddiw ei bod yn angenrheidiol i chwi fod yn bresennol at ddibenion yr achos ac y mae wedi gohirio'r gwrandawriad er mwyn i chwi fod yn bresennol.

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ..... (dyddiad) ..... am ..... (amser) gerbron y Llys Ynadon yn .....

Ynad Heddwch  
[neu Trwy Orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

## FFURFLEN 13

*Datganiad tyst (C.J. Act 1967, s.9; M.C. Act 1980, s.102; M.C. Rules 1981, r. 70)*

DATGANIAD (*enw'r tyst*)

Oed y tyst (*os yw tros 21 rhodder "tros 21"*)

Galwedigaeth y tyst:

Cyfeiriad:

Y mae'r datganiad hwn [a gynnwys ..... tudalen y llofnodwyd pob un ohonynt gennyf fi,] yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred ac fe'i gwnaif gan wybod, os caiff ei ddefnyddio fel tystiolaeth, y byddaf yn agored i erlyniad os bu i mi'n fwriadol ddatgan ynddo rywbeth y gwn ei fod yn ffug neu rywbeth na chredaf ei fod yn wir.

Dyddiedig y ..... dydd o fis ....., 19 . A.B.  
[Gan na allai A.B. ddarllen y datganiad uchod fe'i darllenwyd iddo gennyf fi, C.D. o  
....., cyn iddo ei lofnodi.

Dyddiedig y ..... dydd o fis ....., 19 . C.D.]

---

NODYN Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl dylid defnyddio papur ffwlsgap ar gyfer datganiadau. Os caiff datganiadau eu teipio dylid defnyddio gofod dwbl. Ar un ochr o'r ddalen yn unig y dylid ysgrifennu; dylid gadael gofod ar frig y tudalen cyntaf er mwyn i glerc y llys gael lle i gynnwys y penawdau; a dylid gadael ymyl llydan ar ochr chwith pob tudalen.

## FFURFLEN 14

*Hysbysiad i ddiffynnydd: prawf drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig (C.J. Act 1967, s.9; M.C. Act 1980, s.102; M.C. Rules 1981, r. 70)*

At A.B. o

Ar y dydd o fis , 19 , fe wna'r Llys Ynadon a fydd yn eistedd yn wrando tystiolaeth mewn perthynas â'r cyhuddiad (au) canlynol yn eich erbyn.

Dim ond gerbron rheithgor [*neu* fe all gael ei brofi gerbron rheithgor neu gan y Llys Ynadon] [*neu* fe all gael ei brofi gan y Llys Ynadon] y gellir profi'r trosedd hwn [*neu'r* troseddau hyn].

Gwnaed datganiadau ysgrifenedig gan y tystion a enwyd isod ac amgaeir copïau o'u datganiadau. Caiff pob un o'r datganiadau hyn eu cyflwyno fel tystiolaeth gerbron yr ynadon oni fyddwch am i'r tyst gyflwyno tystiolaeth lafar. Os byddwch am i unrhyw rai o'r tystion hyn gyflwyno tystiolaeth lafar dylech fy hysbysu cyn gynted â phosibl. Os [*\*na* wnewch hynny o fewn saith niwrnod o dderbyn yr hysbysiad hwn ac os profir y trosedd(au) gan y Llys Ynadon fe gollwch eich hawl i atal y datganiad rhag cael ei gyflwyno fel tystiolaeth a chyda chaniatâd y Llys yn unig y gallwch fynnu i'r tyst fod yn bresennol. Os na phrofir y trosedd(au) gan y Llys Ynadon ni fydd y cyfyngiad hwn ar amser yn gymwys ond os] na wnaethoch fy hysbysu eich bod am i'r tyst fod yn bresennol ni fydd yn bresennol pan ymddangoswch gerbron yr ynadon ac fe wna hyn beri oedi a thynnu costau os bydd yn rhaid iddo gael ei alw y pryd hwnnw.

[†Amgaeir ffurflen ateb [a stamp] [ac amlen a stamp] ac fe arbedir amser a chostau os gwnewch ateb p'un a ydych neu beidio am i unrhyw rai o'r tystion hyn gyflwyno tystiolaeth lafar.

Os ydych yn bwriadau ymgynghori â chyfreithiwr ynglŷn â'ch achos fe ddylech wneud hynny ar unwaith gan drosglwyddo'r hysbysiad hwn a'r datganiadau iddo ef ddelio â nhw].

Enwau'r tystion yr amgaeir eu datganiadau—

Cyfeiriwch unrhyw ateb at:—

(Llofnodwyd) .....  
[Ar ran yr Erlynydd]

\*Gadawer allan os na all y trosedd gael ei wrando gan lys ynadon.

†Gadawer allan os anfonir y dogfennau i gyfreithiwr y diffynnydd.

FFURFLEN 22

*Gorchymyn tystiolaeth (C.P. (A. of W.) Act 1965, s.1(1); M.C. Rules 1981, r. 8)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At:  
(Tyst)

Cyfeiriad:

Gorchymyn: Y byddwch\* [os rhoir rhybudd i chwi wedi hyn i'r perwyl  
hwnnw] yn bresennol a rhoi tystiolaeth pan fydd (y  
cyhuddedig) yn sefyll ei brawf yn Llys y Goron yn

Ynad Heddwch

[Trwy Orchymyn y Llys

Clerc yr Ynadon]

NODYN Fe all methu ag ufuddhau i'r gorchymyn hwn eich gwneud yn agored i 3 mis o garchar neu i ddirwy. Fe'ch hysbysir o'r dyddiad a'r amser yr ydych i fod yn bresennol gan swyddog priodol Llys y Goron ac iddo ef y dylid cyfeirio unrhyw ymholiad.

---

\*Dilêr os na fydd y gorchymyn yn orchymyn amodol.

## FFURFLEN 23

*Hysbysiad i dyst fod gorchymyn tystiolaeth i'w drin fel gorchymyn amodol (C.P. (A. of W.) Act 1965, s.1(2)(b); M.C. Rules 1981, r. 8(2)).*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At:  
(Tyst)

Cyfeiriad:

Ar (*dyddiad*) gorchymynnwyd chi i fod yn bresennol a rhoi tystiolaeth ym mhrawf [A.B.] yn Llys y Goron yn.....

Mae'r Ynadon Archwilio [yn y cyfamser wedi cyflwyno [A.B.] i sefyll ei brawf yn Llys y Goron yn ..... ac y maent] wedi rhoi cyfarwyddyd fod y gorchymyn hwnnw i'w drin fel gorchymyn amodol:

Sylwer:

BYDDED HYSBYS i chwi NA fydd yn ofynnol i chwi fynyachu llys y prawf os na chewch wedi hyn hysbysiad yn eich cyfarwyddo i fod yn bresennol.

Ynad Heddwch  
[Clerc y Llys]

## FFURFLEN 24

*Hysbysiad am ofynion adran 11, Criminal Justice Act 1967 (C.J. Act 1967, s.11; M.C. Rules 1981, rr. 6(5), 7(13))*

## MANYLION AM YR ALIBI

Yn [sir Rhanbarth Llys Ynadon ].

At A.B., o

Os ydych yn dymuno cynnig amddiffyniad drwy alibi pan roddir chwi ar eich prawf dylech ddarllen yr hysbysiad hwn yn ofalus ac os ydych yn bwriadu ymgynghori â chyfreithiwr dylech ddangos hwn iddo ar unwaith.

Dan adran 11 o'r Criminal Justice Act 1967 pan roir diffynnydd ar ei brawf gerbron rheithwyr ni chaiff ef (heb ganiatâd y Llys) roi tystiolaeth ei hun na galw tystion eraill o blaid alibi os na fydd ef wedi rhoi manylion am yr alibi ac am y tystion yn ôl gofynion yr adran honno. Er mwyn cydymffurfio ag adran 11 rhaid i'r diffynnydd—

1. roi hysbysiad am y manylion yn y llys ynadon (mae'r adeg i wneud hynny wedi mynd heibio yn eich achos chwi) neu i gyfreithiwr yr erlynydd cyn pen y cyfnod o 7 niwrnod o ddiwedd y gweithrediadau yn y llys ynadon; a
2. cynnwys yn yr hysbysiad fanylion am yr alibi ac enw a chyfeiriad unrhyw dyst y mae'n bwriadu ei alw i gefnogi'r alibi.

Os yw'r diffynnydd yn methu â rhoi enw a chyfeiriad tyst yn yr hysbysiad, rhaid iddo gynnwys ynddo unrhyw wybodaeth sydd ganddo a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst a rhaid iddo wneud popeth sy'n rhesymol er mwyn ceisio darganfod ei enw a'i gyfeiriad. Os oedd enw neu gyfeiriad tyst heb ei gynnwys yn yr hysbysiad a bod y diffynnydd wedi hynny'n cael gafael ar yr enw neu'r cyfeiriad neu ryw wybodaeth arall a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst, rhaid iddo ar unwaith roi gwybod i gyfreithiwr yr erlynydd am yr enw neu'r cyfeiriad neu'r wybodaeth arall. Os hysbysir y diffynnydd gan yr erlynydd neu ar ei ran ef na allwyd cael gafael ar y tyst wrth yr enw neu yn y cyfeiriad a roddwyd gan y diffynnydd, rhaid i'r diffynnydd roi gwybod ar unwaith i gyfreithiwr yr erlynydd am unrhyw wybodaeth sydd ganddo ar y pryd neu a ddaw iddo wedi hynny ac a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst.

Rhaid i bob hysbysiad y mae gofyn i'r diffynnydd ei roi i gyfreithiwr yr erlynydd yn ôl yr uchod fod mewn ysgrifen a rhaid ei roi i'r cyfreithiwr neu ei adael yn ei swyddfa neu ei anfon wedi ei gyfeirio ato yn ei swyddfa, mewn llythyr wedi'i gofrestru neu gyda'r gwasanaeth cofnodi'r dosbarthiad.

Mae "tystiolaeth o blaid alibi" yn golygu "tystiolaeth sy'n tueddu i ddangos nad oedd y diffynnydd yn y lle yr honnir fod y trosedd wedi'i gyflawni ar yr adeg honno am ei fod mewn rhyw le arbennig neu mewn rhyw ardal arbennig ar ryw adeg arbennig."

Enw a chyfeiriad cyfreithiwr yr erlynydd yn eich achos chwi yw .

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

## PRAWF LLYS YNADON

## FFURFLEN 27

*Hysbysiad i Ddiffynnydd: pledio'n euog yn absen (M.C. Act 1980, s. 12(1)(a))*

Yn [sir Rhanbarth Llys Ynadon ].

At A.B., o

## BYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN YR HYSBYSIAD HWN YN OFALUS

Os ydych yn cyfaddef y trosedd[au] a enwir yn y wŷs(gwysiau) a gyflwynir gyda hwn, ac os nad ydych yn dymuno ymddangos gerbron y Llys, y mae'n rhydd i chwi dan adran 12, Magistrates' Court Act 1980 roi gwybod i Clerc y Llys mewn ysgrifen eich bod yn dymuno pledio'n euog i'r cyhuddiad[au] heb ymddangos. Os penderfynwch wneud hynny, dylech ysgrifennu at y Clerc o leiaf 3 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad, i arbed dod â thystion i'r llys heb fod angen. Wrth ysgrifennu at y Clerc, dylech nodi unrhyw ystyriaethau lliniarol y dymunwch iddynt gael eu gosod gerbron y Llys.

[Os byddwch yn ysgrifennu fel y soniwyd uchod, bydd yn ofynnol i chwi gynnwys datganiad yn rhoi eich dyddiad geni a'ch rhyw]\*. Amgaeir ffurflen y gellwch ei defnyddio ar gyfer ysgrifennu at y Clerc.

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, fe ddarllenir y Datganiad[au] Ffeithiau amgaeedig a'ch datganiad lliniarol chwithau'n gyhoeddus yn y Llys, cyn i'r Llys farnu a dderbynnir eich ple a gwrandawriad a phenderfynu'r achos yn eich absen. Os na fydd y Llys yn gohirio'r achos ar ôl derbyn eich ple a chyn rhoi deddfryd arnoch (ac os digwydd hynny fe gewch wybod pa bryd ac ym mha le y parheir y gwrandawriad, er mwyn i chwi ymddangos), ni chaniateir i'r erlynydd wneud unrhyw ddatganiad ynglŷn â ffeithiau sy'n ymwneud â'r trosedd[au], heblaw'r Datganiad[au] Ffeithiau.

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, ond y Llys yn penderfynu peidio â derbyn y ple, fe ohirir y gwrandawriad a rhoddir gwybod i chwi pa bryd ac ym mha le y parheir y gwrandawriad. Y pryd hynny fe wrandawrir yr achos fel petaech chwi heb ysgrifennu i bledio'n euog.

\*[Cyflwynir hefyd gyda hwn hysbysiad oddi wrth yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol yn hawlio rhai cyfraniadau arbennig. Os ydych yn dymuno nid yn unig bledio'n euog i'r cyhuddiad[au] a enwir yn y wŷs(gwysiau) ond hefyd gyfaddef eich bod heb dalu'r cyfraniadau a restrir yn yr hysbysiad, neu unrhyw un neu rai ohonynt, y mae'n rhydd i chwi roi gwybod am hynny i'r Clerc mewn ysgrifen. Os defnyddiwch y ffurflen amgaeedig i bledio'n euog, gellwch ei defnyddio hefyd i gyfaddef eich bod heb dalu'r cyfraniadau a restrir yn yr hysbysiad].

\*[Cyflwynir hefyd gyda hwn hysbysiad oddi wrth yr awdurdod trwyddedu cerbydau. Dywed yr hysbysiad hwn, pe digwyddai i chwi gael eich euogfarnu, y ceid achos felly dros wneud gorchymyn yn eich gorfodi i dalu'r swm a nodwyd yn yr hysbysiad (sef swm y dreth sy'n daladwy ar gyfer y cyfnod pan oedd y cerbyd heb drwydded). Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, fe ellwch fodd bynnag gynnwys ynddo ddatganiad yn dweud fod y swm a ddynodwyd felly'n amhriodol (e.e. oherwydd nad chwi oedd ceidwad y cerbyd yn ystod yr oll o'r cyfnod pan oedd heb drwydded neu oherwydd na châr'r cerbyd ei gadw neu ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus yn ystod yr oll o'r cyfnod hwnnw). Os na wnewch gynnwys datganiad yn dweud fod y swm yn amhriodol, fe â'r Llys rhagddo gan gymryd ym ganiataol i'r swm gael ei fwrw'n gywir. Os na wnewch gynnwys datganiad felly a phenderfynu ymddangos yn bersonol gan amau'r swm, dylech drefnu i gael yn y Llys unrhyw dystion neu ddogfennau a all eich helpu i brofi fod y swm yn amhriodol].

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, fe allwch, os dymunwch hynny, dynnu'r ple yn ôl drwy roi gwybod am hynny i'r Clerc unrhyw adeg cyn y gwrandawriad.

---

\*Na chynhwysir ond mewn achosion y mae'n briodol iddynt.



Nid yw'r hysbysiad hwn, nac unrhyw ateb a anfonwch chwi, yn cyfyngu dim ar eich hawl i ymddangos gerbron y Llys ar yr adeg a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad, naill ai yn bersonol neu drwy fargyfreithiwr neu gyfreithiwr, ac i bledio'n euog neu'n ddieuog y pryd hwnnw, fel y mynnoch; os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen ac wedyn yn ymddangos felly neu yn rhoi gwybod i'r Clerc cyn y gwrandawriad eich bod yn tynnu'ch ple ysgrifenedig yn ôl, fe wrandewir yr achos fel petaech heb anfon y ple i mewn. Os ydych am fod yn bresennol a phledio'n ddieuog a chwithau eisoes wedi ysgrifennu i bledio'n euog, fe arbedwch oedi a chostau drwy ddweud wrth y Clerc ar unwaith eich bod wedi newid eich meddwl: oni hysbyswch y Clerc mewn digon o amser bydd yn rhaid gohirio'r achos er mwyn i'r erlynwyr allu dod â'u tystion i'r Llys.

#### NODIADAU

1. Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth, gellwch ddod i gysylltiad â Chlerc y Llys.
2. Os ydych yn bwriadu ymgynghori â chyfreithiwr, byddai'n ddoeth i chwi wneud hynny cyn gwneud dim arall ynglŷn â'r hysbysiad hwn.
3. Cyfeirier pob llythyr at  
Glerc Llys Ynadon

*(rhodder yma'r cyfeiriad)*

## FFURFLEN 28

*Datganiad ffeithiau (M.C. Act 1980, s. 12(1)(b))*

At A.B., o

*(rhodder oed a gwaith os ydynt yn hysbys).*

Os byddwch yn rhoi gwybod i Glerc y Llys, eich bod yn dymuno pledio'n euog i'r cyhuddiad o  
,a geir yn y wŷs a gyflwynir gyda hwn, heb i chwi ymddangos gerbron y Llys, ac  
os bydd y Llys yn gwrando ac yn penderfynu'r achos yn eich absen dan adran 12, Magistrates'  
Courts Act 1980, fe ddarllenir y Datganiad Ffeithiau sy'n dilyn yn gyhoeddus yn y Llys cyn i'r  
Llys farnu a dderbynnir eich ple. Os derbynnir eich ple eich bod yn euog, ni fydd y Llys yn  
caniatáu gwneud unrhyw ddatganiad arall gan yr erlynydd neu ar ei ran ynglŷn ag unrhyw  
ffeithiau sy'n ymwneud â'r cyhuddiad, os na fydd y Llys yn gohirio'r achos ar ôl eich euogfarnu  
a chyn rhoi dedfryd arnoch.

*Datganiad Ffeithiau*Llofnodwyd .....  
[ar ran yr Erlynydd]

## FFURFLEN 29

*Hysbysiad ynglŷn â'r bwriad i gyfeirio at euogfarnau blaenorol (M.C. Act 1980, s.104)*

At A.B., o .....

Hysbysir chwi drwy hyn, os ceir chwi'n euog ond dim ond os ceir chwi'n euog [o unrhyw un] o'r trosedd[au] o ..... y gwysir chwi o'i blegid/o'u plegid i ymddangos gerbron Llys Ynadon ..... ar y ..... dydd o fis ....., 19 .., y dygir yr euogfarnau a enwir isod ac a gofnodwyd yn eich erbyn i sylw'r Llys; ac os na fyddwch yn bresennol eich hun yn y Llys, fe all y Llys ystyried unrhyw euogfarn flaenorol felly yr un fath â phe baech wedi ymddangos yno a chyfaddef.

Dyddiad yr euogfarn	Llys	Trosedd	Dedfryd

Llofnodwyd .....  
[Ar ran y Prif Gwnstabl]

Os nad ydych yn bwriadu bod yn bresennol eich hun yn y gwrandawriad a chwithau'n amau unrhyw rai o'r euogfarnau uchod, neu unrhyw fanylion cysylltiedig â hwy, dylech ar unwaith hysbysu [Prif Gwnstabl .....] yn (*noder y cyfeiriad*) fel y gellir gwneud ymholiadau pellach.

Ni cheir yn yr hysbysiad hwn yr un dim sydd mewn unrhyw fodd yn cyfyngu ar eich hawl i ymddangos eich hun ar y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawriad ac amau unrhyw euogfarn a honnir yn eich erbyn.

## FFURFLEN 30

*Hysbysiad ynglŷn â'r bwriad i gyfeirio at euogfarnau blaenorol yn achos troseddau a all olygu anghymhwysu gorfodol neu anghymhwysu yn ôl ewyllys rhag gyrru (R.T. Act 1972, s.182 (2A)(c)).*

At A.B. o

Hysbysir chwi drwy hyn [os ceir chwi'n euog ond dim ond os ceir chwi'n euog [o unrhyw un] o'r trosedd[au] o ..... y gwysir chwi o'i blegid/o'u plegid i ymddangos gerbron Llys Ynadon ..... ar y ..... dydd o fis ....., 19 .., ] [yn y gwrandawriad a ailagorir yn ..... ar y ..... dydd o fis ....., 19 .., yn dilyn eich barnu'n euog gan Llys Ynadon ..... ar y ..... dydd o fis ....., 19 .., o gyflawni'r trosedd[au] o ..... ] y dygir yr euogfarnau a enwir isod ac a gofnodwyd yn eich erbyn i sylw'r Llys; ac os na fyddwch yn bresennol eich hun yn y Llys, fe all y Llys ystyried unrhyw euogfarn flaenorol felly yr un fath â phe baech wedi ymddangos yno a chyfaddef ei chyflawni.

Dyddiad yr euogfarn	Llys	Trosedd	Dedfryd

Llofnodwyd .....  
[Ar ran y Prif Gwnstabl]

Os nad ydych yn bwriadu bod yn bresennol eich hun yn y gwrandawriad [yn y gwrandawriad a ailagorir] a chwithau'n amau unrhyw rai o'r euogfarnau uchod, neu unrhyw fanylion cysylltiedig â hwy, dylech ar unwaith hysbysu [Prif Gwnstabl ..... ] yn (*noder y cyfeiriad*) fel y gellir gwneud ymholiadau pellach.

Ni cheir yn yr hysbysiad hwn yr un dim sydd mewn unrhyw fodd yn cyfyngu ar eich hawl i ymddangos eich hun ar y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawriad [y gwrandawriad a ailagorir] ac amau unrhyw euogfarn a honnir yn eich erbyn.

Dyddiad

---

FFURFLEN 37

*Gorchymyn gwrthod hysbysiaeth (M.C. Act 1980, s.9)*

Llys Ynadon ..... (*Cod*)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Trosedd honedig: (*manylion byr a statud*)

†Dyfarniad: Bod yr hysbysiaeth yn cael ei gwrthod.

Ynad Heddwch  
[*neu* Trwy orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

---

†Ychwanegwch fanylion am unrhyw orchymyn parthed costau.

GORFODI DIRWYON

## FFURFLEN 46

*Hysbysiad am ddirwy (M.C. Rules 1981, r. 46)*

┌	┐	Llys Ynadon ..... (Cod)		
		Dyddiad .....		
		Rhif yr Achos .....		
		Fe'ch dyfarnwyd yn euog ar .....(dyddiad) ..... gan [Lys Ynadon ..... ] [Lys y Goron yn ..... ]		
└	┘	Rhif eich Trwydded Yrru ..... ]		
Trosedd(au)	Dirwy	Iawn	Costau	Cyfanswm
	£	£	£	£

Gorchmynnwyd i chwi dalu'r symiau a nodir uchod [erbyn (*dyddiad*)] [drwy gyfrwng rhandaliadau o £ ..... wythnosol/misol a'r rhandaliad cyntaf i'w wneud erbyn (*dyddiad*).]

Gallwch dalu drwy fynd yn bersonol i'r cyfeiriad a nodir isod ar (*y dyddiau*) rhwng (*amser*) a (*amser*), neu—

Trwy'r post i'r cyfeiriad a nodir isod. Dylid gwneud sieciau ac archebion post a fydd wedi'u croesi yn daladwy i "Clerc yr Ynadon". Ni ddylid anfon arian mewn amlenni heb eu cofrestru. Rhaid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post.

Taliad i: Clerc yr Ynadon

(*Cyfeiriad*)

(*Rhif Teleffon* )

Bydd methu â thalu yn unol â'r cyfarwyddiadau uchod yn eich gwneud yn agored i warant atafaelu neu warant i'ch restio os na chaniatawyd i chwi ragor o amser i dalu; gellir gofyn am estyn yr amser drwy gyfeirio llythyr at Clerc yr Ynadon yn mynegi'n llawn y rhesymau dros ofyn.

SYLWER: Dylai'r hysbysiad hwn gael ei anfon gydag unrhyw daliad neu gais.

## FFURFLEN 53

*Gwŷs i ddiffygdalwr dirwy (P.C.C. Act 1973, ss. 31, 32; M.C. Act 1980, ss. 82, 83; M.C. Rules 1981 r. 98).*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Dyfarnwyd yn euog ar:

gan: [Llys Ynadon ..... ] [Llys y Goron yn ..... ]

Trosedd: (*manylion byr a statud*)

Gorchmynnwyd i dalu: £ dirwy  
£ iawn  
£ costau

Cyfanswm £

Taliadau a wnaed £

Symiau sy'n parhau'n ddyledus: £

Yr ydych wedi methu â thalu'r swm a nodir uchod fel y swm sy'n ddyledus arnoch o hyd. Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos yn Llys Ynadon ..... ar ..... am ..... m, oni fydd y swm uchod wedi'i dalu cyn hynny, fel y galler holi am eich amgylchiadau.

Ynad Heddwch  
[Clerc yr Ynadon]

SYLWER:

Amcan yr ymholiad i'ch amgylchiadau yw galluogi'r Llys i benderfynu a ddylid eich traddodi i garchar am beidio â thalu. Os na fyddwch yn talu'n llawn y swm sy'n ddyledus arnoch ac os na wnewch ymddangos yn bersonol yn y Llys yn dilyn y wŷs hon, gallwch gael eich restio heb hysbysiad arall.

## FFURFLEN 61

*Hysbysiad am orchymyn trosglwyddo dirwy (M.C. Rules 1981 r. 57)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Ar (*dyddiad*) yn [Llys Ynadon .....] [Llys y Goron yn .....] [un o lysoedd diamod [yr Alban] [Gogledd Iwerddon], sef .....] gorchmynnwyd i chi dalu'r symiau canlynol:

Dirwy: £

Iawn: £

Costau: £

Symiau sy'n parhau'n ddyledus: £

Hysbysir chwi drwy hyn mai mater i Llys Ynadon ..... bellach yw gorfodi i'r swm hwnnw sy'n parhau'n ddyledus gael ei dalu, o ganlyniad i orchymyn trosglwyddo dirwy a wnaed ar (*dyddiad*).

Dylech yn awr dalu'r swm sy'n parhau'n ddyledus i'r llys a enwir isod, [ar unwaith] [cyn (*dyddiad*)].

Os na allwch dalu dylech ofyn ar unwaith am estyn [ymhellach] yr amser i dalu a gwneud hynny drwy gyfrwng llythyr a gyfeiriwyd ataf fi gan fynegi'n llawn y rhesymau dros ofyn.

Gallwch dalu'n bersonol yn y cyfeiriad a nodir isod ar (*dyddiau*) rhwng (*amser*) a (*amser*),

neu—

drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir isod. Dylid gwneud sieciau ac archebion post a fydd wedi'u croesi yn daladwy i "Clerc yr Ynadon". Ni ddylid anfon arian mewn amlenni heb eu cofrestru. Rhaid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post.

Taliad i: Clerc yr Ynadon  
(Enw a Chyfeiriad y Llys)  
(Rhif Teleffon )  
Clerc yr Ynadon



## FFURFLEN 62

Hysbysiad am orchymyn goruchwylio dirwy (M.C. Rules 1981, r. 56)

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Ar [*dyddiad*] yn [Llys Ynadon .....] [Llys y Goron yn .....] gorchymynnwyd i chwi dalu'r symiau canlynol:

Dirwy: £

Iawn: £

Costau: £

Swm sy'n parhau'n ddyledus: £

Sylwer: Hysbysir chwi drwy hyn eich bod [heddiw] [ar (*dyddiad*)] wedi'ch gosod drwy orchymyn y Llys hwn dan oruchwyliad [*fenw a chyfeiriad*] hyd nes y byddwch yn talu'r swm a ddynodir uchod fel y swm sy'n parhau'n ddyledus arnoch neu y gwneir gorchymyn arall.

[Rhaid i'r taliad gael ei wneud drwy randaliadau [wythnosol] [misol] o , a'r rhandaliad cyntaf yn cael ei wneud ar unwaith].

Clerc yr Ynadon

## PROFIANNAETH A RHYDDHAD AMODOL

## FFURFLEN 64

*Gorchymyn profiannaeth (P.C.C. Act 1973, s.2)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Oed: blwydd

Cyfeiriad:

Trosedd:

*(manylion byr a statud)*

Mae'r Llys wedi egluro i'r cyhuddedig effaith y gorchymyn hwn ac os na wnaiff gydymffurfio ag ef neu os bydd iddo gyflawni trosedd arall y bydd y cyhuddedig yn agored i gael ei gosbi am y trosedd y gwnaed y gorchymyn o'i herwydd.

Dyfarniad:

Bod y cyhuddedig sy'n [byw] [a fydd yn byw] yn rhanbarth llys ynadon ..... yn parhau am ..... blynedd o dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y rhanbarth llys ynadon hwnnw a gorchymynnir ymhellach ei fod yn cydymffurfio yn ystod y cyfnod hwnnw â'r gofynion a gynhwysir yn yr Atodiad isod.

Ynad Heddwch

[neu Trwy Orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

## Atodiad

- \*1. *Bod y sawl a gyhuddir yn ymddwyn yn weddus a byw'n ddiwyd.*
2. *Bod y sawl a gyhuddir yn hysbysu'r swyddog profiannaeth ar unwaith am unrhyw newid yn ei gyfeiriad neu yn ei waithl gwaith*
3. *Bod y sawl a gyhuddir yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r swyddog profiannaeth ynglŷn â chadw mewn cysylltiad â'r swyddog hwnnw ac ynglŷn â derbyn yn ei gartref/chartref ymweliadau oddi wrth y swyddog profiannaeth.*
4. *(Unrhyw ofynion arbennig)*

---

\*Enghreifftiau yw'r uchod o'r gofynion a gynhwysir ac nid ydynt yn rhan o'r ffurflen.

## FFURFLEN 65

*Gorchymyn rhyddhad amodol (P.C.C. Act 1973, s.7)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Trosedd: *(manylion byr a statud)*

[Heddiw] [ar ] dyfarnwyd y cyhuddedig yn euog o'r trosedd uchod. Ac y mae'r llys o'r farn ar ôl ystyried yr amgylchiadau, gan gynnwys natur y trosedd a chymeriad y cyhuddedig, mai anfuddiol yw gosod cosb arno ac anaddas yw gorchymyn profiannaeth:

Gorchymyn: Bod y cyhuddedig yn cael ei ryddhau ar yr amod na fydd yn cyflawni unrhyw drosedd yn ystod y cyfnod o blynedd o ddyddiad y gorchymyn hwn.

[ ]+

Ynad Heddwch

[neu Trwy Orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

+ Ychwaneger manylion unrhyw orchymyn ynglŷn â chostau ac iawn.

## FFURFLEN 66

Gwŷs i brofiannwr yn ôl cais am ddiwygio'r gorchymyn profiannaeth (P.C.C. Act 1973, Sch. 1)

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At:

Cyfeiriad:

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ..... am  
m. gerbron y Llys Ynadon a fydd yn eistedd yn  
pan wrandewir cais gan ..... am  
ddiwygio'r gorchymyn profiannaeth a wnaed yn eich achos  
chwi ar ..... (dyddiad) gan [Llys Ynadon  
..... ] [Lys y Goron yn ..... ]

Ynad Heddwch  
[Clerc yr Ynadon]

FFURFLEN 67

*Gorchymyn diwygio profiannaeth (P.C.C. Act 1973, Sch. 1)*

Llys Ynadon ..... (*Cod*)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed ar:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed gan:

Cyfnod y gorchymyn  
profiannaeth:

Llys Goruchwylio:

Gorchymyn:

Ar gais .....  
bod y llys hwn yn diwygio'r gorchymyn profiannaeth uchod  
fel hyn:  
(*Rhodder y manylion am y diwygiad*)

Ynad Heddwch

[*neu* Trwy orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

*Gorchymyn yn diddymu gorchymyn profiannaeth (P.C.C. Act 1973, Sch. 1)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed ar:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed gan:

Cyfnod y gorchymyn  
profiannaeth:

Llys goruchwylio:

Gorchymyn:

Gan na chynhwysir cyfarwyddyd sy'n cyfyngu'r hawl  
ryddhau i Lys y Goron:

Ar gais .....  
mae'r llys hwn drwy hyn yn diddymu'r gorchymyn uchod.

Ynad Heddwch

[*neu* Trwy orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

FFURFLEN 69

*Gorchymyn rhyddhad amodol yn lle profiannaeth (P.C.C. Act 1933, s.11)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

Cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed ar:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed gan:

Hyd y gorchymyn  
profiannaeth:

Llys arolygu:

Gorchymyn:

Gan na cheir cyfarwyddyd yn cyfyngu'r hawl ryddhau i Llys  
y Goron:

Ar gais .....  
fe wna'r llys hwn yn awr, yn lle'r gorchymyn profiannaeth,  
orchymyn yn rhyddhau'r cyhuddedig ar yr amod na fydd i'r  
cyhuddedig gyflawni'r un trosedd rhwng gwneud y gorchy-  
myn hwn a phan ddaw'r cyfnod (*noder y cyfnod*) a  
ddynodwyd yn y gorchymyn profiannaeth i ben.

Ynad Heddwch

[*neu* Trwy orchymyn y Llys  
Clerc y Llys]

## FFURFLEN 71

*Gwŷs am dorri gofynion gorchymyn profiannaeth (P.C.C. Act 1973, s. 6; M.C. Rules 1981 r. 98)*

Llys Ynadon ..... (*Cod*)

Dyddiad:

At y cyhuddedig:

o:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed ar:

Gorchymyn profiannaeth  
a wnaed gan:

Hyd y gorchymyn:

Llys goruchwylio:

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ..... am  
..... a.m./p.m. gerbron Llys Ynadon .....  
i ateb i'r hysbysiaeth honno sy'n honni eich bod wedi methu  
â bodloni un o ofynion y gorchymyn profiannaeth uchod.

Methiant honedig  
i fodloni'r  
gofyniad:

Hysbysiaeth a  
gyflwynwyd gan:  
Cyfeiriad:

Ynad Heddwch  
[Clerc yr Ynadon]



## FFURFLEN 78

*Gwŷs yn dilyn trosedd ychwanegol yn ystod cyfnod o brofiannaeth neu o ryddhad amodol (P.C.C. Act 1973, s. 8; M.C. Rules 1981, r. 98)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y cyhuddedig:

o:

Trosedd gwreiddiol: *(manylion byr a statud)*

Gorchymyn: [profiannaeth] [rhyddhad amodol]

Gorchymyn a wnaed ar:

Gorchymyn a wnaed gan:

Hyd y Gorchymyn:

Llys goruchwylio:  
(os bydd hynny'n  
briodol)

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar am m.  
gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn i ateb i'r  
hysbysiaeth ganlynol:

Hysbysiaeth: Eich bod chwi'n atebol i'r [gorchymyn profiannaeth] [gorchymyn rhyddhad amodol] ac i chwi gael eich barnu'n euog o'r trosedd pellach y rhoir isod y manylion amdano ac a gyflawnwyd gennych chwi yn ystod [cyfnod y brofiannaeth] [cyfnod y rhyddhad amodol].

Dyddiad a lle y cawsoch  
eich dyfarnu'n euog  
o'r trosedd pellach:

Trosedd pellach: *(manylion byr a statud)*

Hysbysiaeth a  
gyflwynwyd gan:

Cyfeiriad:

Dyddiad yr Hysbysiaeth:

Ynad Heddwch  
[Clerc yr Ynadon]

## FFURFLEN 85

*Gwŷs yn dilyn trosedd ychwanegol yn ystod cyfnod gweithredol dedfryd ataliedig (P.C.C. Act 1973, s. 25; M.C. Rules 1981, r. 98)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y cyhuddedig:

o:

Trosedd gwreiddiol: *(manyllion byr a statud)*

Dedfryd ataliedig: Ar *(dyddiad)* fe'ch dedfrydwyd gan Lys Ynadon  
i garchar am *(enwer y cyfnod)* a ataliwyd  
am gyfnod o *(enwer y cyfnod ataliedig)*.

Gwysir chwi felly drwy hyn i ymddangos ar *(dyddiad)*  
am m. gerbron y Llys Ynadon yn eistedd yn  
i ateb yr hysbysiaeth ganlynol:

Hysbysiaeth:

Eich bod chwi'n atebol i'r ddedfryd ataliedig uchod ac i chwi  
gael eich barnu'n euog o'r trosedd pellach a nodir isod ac a  
gyflawnwyd gennych yn ystod cyfnod gweithredol y dded-  
fryd ataliedig.

Trosedd pellach: *(manyllion byr a statud)*

Dyddiad a lle y  
cawsoch eich barnu'n  
euog:

[Llys Ynadon ] [Llys y Goron yn ]

Hysbysiaeth a  
gyflwynwyd gan:

Cyfeiriad:

Dyddiad yr  
Hysbysiaeth:

Ynad Heddwch  
[Clerc yr Ynadon]

## FFURFLEN 90D

*Gwŷs i berson a gafwyd yn euog o drosedd pellach a gyflawnwyd yn ystod cyfnod llawn dedfryd a ataliwyd yn rhannol (C.L. Act 1977, s. 47, Sch. 9; M.C. Rules 1981, r. 98)*

Llys Ynadon ..... (Cod)

Dyddiad:

At y cyhuddedig:

Cyfeiriad:

Trosedd gwreiddiol: *(manyllion byr a statud)*

Dedfryd a ataliwyd yn rhannol:

Ar *(dyddiad)* fe'ch dedfrydwyd gan Lys Ynadon i garchar am *(enwer y cyfnod llawn)* ac fe orchmynnwyd gan y llys hwnnw, ar ôl i chwi dreulio cyfnod o *(enwer y cyfnod y gorchmynnwyd ei dreulio yng ngharchar)* bod gweddill y ddedfryd i gael ei atal ac na châi ei weithredu oni cheid chwi'n euog o gyflawni trosedd y gellid ei gosbi â charchariad a'r trosedd hwnnw wedi'i gyflawni yn ystod cyfnod llawn y ddedfryd ac oni wnaed wedi hynny orchymyn o dan adran 47(3) Criminal Law Act 1977 eich bod i dreulio yng ngharchar y rhan o'r cyfnod a ataliwyd.

Gwysir chwi felly drwy hyn i ymddangos ar *(dyddiad)* am m. gerbron y Llys Ynadon yn eistedd yn i ateb i'r hysbysiaeth ganlynol:

Hysbysiaeth:

Eich bod chwi'n atebol i'r ddedfryd rannol ataliedig uchod nad oes gorchymyn wedi ei wneud mewn cysylltiad â hi o dan adran 47(3), Criminal Law Act 1977 i adfer rhan ohoni ac i chwi gael eich barnu'n euog o'r trosedd pellach a nodir isod ac a gyflawnwyd gennych yn ystod cyfnod llawn y ddedfryd a ataliwyd yn rhannol.

Trosedd pellach: *(manyllion byr a statud)*

Dyddiad a lle y cawsoch eich barnu'n euog:

[Llys Ynadon ]  
[Llys y Goron yn ]

Cyflwynwyd hysbysiaeth gan:

